

Cyngor Celfyddydau Cymru

Canllawiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

Mehfin 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Canllawiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

Cynnwys

Canllaw Cyffredinol i Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru	2
Cyflwyniad	2
Strwythur yr Arolwg.....	2
Cyflwyno eich Arolwg	3
Atodiadau:	6
Atodiad 1: Diffiniadau o Ffuriau ar Gelfyddyd	6
Atodiad 2: Diffiniadau o Gelfyddydau Gweledol a Ffuriau Crefft	8
Atodiad 3: Diffiniadau o Grefft a Ffuriau Celfyddyd Gymhwysol	10
Atodiad 4: Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal	11
Adran Un: Arddangosfeydd o Gelfyddydau Gweledol a Chrefftau a Chelfyddydau Cymhwysol	17
Adran Dau: Gweithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc ...	21
Adran Tri: Gweithgarwch Celfyddydol Ymgyfranogol Cyffredinol	25
Adran Pedwar: Arlein a Darlledu.....	28
Adran Pump: Ffilm	31
Adran Chwech: Cwmnïau Perfformio/Teithio.....	34
Adran Saith: Berfformiadau Cyhoeddus Byw mewn Lleoliadau Cyflwyno	37
Adran Wyth: Gwasanaethau i'r Sector a'r Gymdeithas Ehangach	40
Adran Naw: Cyflogaeth ac Aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr	44

Canllaw Cyffredinol i Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu i lenwi arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae llenwi'r arolwg yn un o gofynion sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae'r canllaw yn ymdrin â rhai o'r themâu cyffredinol sydd yn yr arolwg drwyddo draw, yn ogystal â'r diffiniadau o ffurfiau celfyddyd. Yn ychwanegol at hyn, mae gan bob adran o'r arolwg ei ganllaw penodol ei hun i'ch helpu drwyddo.

Cofiwch ddarllen y nodiadau canllaw yn ofalus. Os ydych eisiau mwy o help, e-bostiwch: ymchwil@celf.cymru neu ffoniwch ni ar 029 2044 1375.

Strwythur yr Arolwg

Mae'r rhestr isod yn dangos holl adrannau'r arolwg. Rhaid i chi gwblhau'r adran ar gyflogaeth a byrddau rheoli ar derfyn y flwyddyn ariannol yn unig.

- Arddangosfeydd o gelf a chrefft weledol
- Gweithgaredd cyfranogol i blant a phobl ifanc
- Gweithgaredd cyfranogol cyffredinol
- Arlein a Darllediadau
- Ffilm
- Cwmnïau Perfformio/Teithio
- Perfformiadau Cyhoeddus Byw mewn Lleoliadau Cyflwyno
- Gwasanaethau i'r sector a'r gymdeithas yn ehangach
- Cyflogaeth a byrddau rheoli

Cyflwyno eich Arolwg

Un o'r newidiadau allweddol i arolwg 2019/20 yw ein bod yn gofyn i chi ddarparu eich data **fesul prosiect**. I'ch cefnogi yn y broses hon, rydym wedi cynhyrchu Templed Excel y gallwch roi data eich prosiect ynddo ac yna ei gyflwyno i ni ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis. Mae hyn yn caniatáu i chi lenwi'r templed wrth i bob prosiect ddod i ben, yna ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis, gallwch anfon y daenlen gyflawn atom, fel na fydd angen llenwi ein harolwg ar-lein.

Rydym yn eich annog yn gryf i uwchlwytho eich data fesul prosiect unigol gan ddefnyddio'r Templed Excel i'ch helpu i gadw'n gyfoes a chasglu eich data a lleihau'r angen i gasglu gwybodaeth ynghyd am eich gweithgaredd dros y cyfnod 6 mis.

Ar y llaw arall, os bydd yn well gennych uwchlwytho'ch holl ddata ar ddiwedd y cyfnod chwe mis, bydd system ar-lein newydd ar gael yn yr hydref, i'w chwblhau am chwe mis cyntaf blwyddyn 2019/20. Sylwch y bydd angen i chi o hyd gyflwyno eich data **fesul prosiect**.

Bydd hanner cyntaf yr arolwg yn casglu data o 1 Ebrill tan 30 Medi, a'r ail hanner yn casglu data o 1 Hydref tan 31 Mawrth. Byddwch yn derbyn ebost ym mis Mawrth ac Mis Medi yn hatgoffa chi i cyflwyno eich Templed Excel **neu** i gyflwyno eich data ar-lein.

Byddwn yn cynhyrchu adroddiadau uchafbwyntiau am y ddau gyfnod chwe mis yn ogystal ag adroddiadau llawn am y flwyddyn. Byddwn hefyd yn cynhyrchu graffeg gwybodaeth ar gyfer pob mudiad fydd yn crynhoi eu data. Bydd y rhain ar gael ar ein gwefan.

Dewis leithoedd

Dyma'r dewisiadau iaith yn yr arolwg:

Saesneg, Cymraeg, Dwyieithog, Amlieithog, Arall ac Iaith heb fod yn berthnasol.

Dwyieithog – Cymraeg A Saesneg YN UNIG

Arall - os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg

Amlieithog - os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd; e.e. Cymraeg, Saesneg a Groeg

Iaith heb fod yn berthnasol – mae'r dewis hwn ar gael yn unig ar gwestiynau penodol lle mae'n synhwyrol ei gynnwys.

Nodweddion Gwarchoddedig

Ym mhob adran o'r arolwg mae set o gwestiynau yn gofyn i chi am waith y gallasech fod wedi ei gyflwyno sydd wedi ei dargedu'n benodol at wahanol grwpiau yn y gymuned. Grwpiau'r 'nodweddion gwarchoddedig' yw'r rhain, ac y mae gan Gyngor y Celfyddydau gyfrifoldeb cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio i fudiad celfyddydol sy'n derbyn ein cyllid, neu sy'n defnyddio gwasanaeth gan fudiad felly, yn cael eu trin yn deg. O'r herwydd, mae gofyn i ni fonitro amrediad a'r math o bobl a gyflogir yn eich mudiad a faint o weithgaredd yn eich rhaglen sy'n cael ei dargedu at bobl o grwpiau nodweddion gwarchoddedig penodol.

Mae gwneud y celfyddydau yn hygyrch i bawb hefyd yn un o'n hamcanion allweddol yn ein cynllun corfforaethol:

https://arts.wales/sites/default/files/2019-02/Cynllun_Corfforaethol_2018-23.pdf

Mae wyth o nodweddion gwarchoddedig pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dyma hwy:

- Anabledd
- Rhywedd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Oedran (pobl dros 50 a Phlant a Phobl Ifanc)

Hefyd, mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddiddordeb mewn targedu siaradwyr Cymraeg a chynulleidfaoedd Teulu, ac fe geir cwestiynau ychwanegol am y grwpiau hyn.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gwarchod dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993** a **Mesur yr Iaith Gymraeg 2011**.

Yr unig adran o'r arolwg lle'r ydym yn disgwyl i chi fedru adrodd am amrywiaeth unigolion yw'r un am gyflogaeth. Mae hon yn cael ei hanfon allan yn flynyddol, gydag ail hanner yr arolwg yn y gwanwyn. Efallai y bydd angen i chi osod systemau i fyny i gasglu'r wybodaeth hon ynghyd. Mae enghraifft o ffurflen cydraddoldeb a ddefnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn yr atodiadau. Mae modd addasu hon i'w defnyddio yn eich mudiad os dymunwch. Dylai casglu'r data hyn aros yn ddienw a gwirfoddol, felly rydym yn derbyn efallai na fydd modd i chi adrodd am bob maes.

Codau post

Yn y rhan fwyaf o adrannau'r arolwg rydym yn gofyn i chi roi codau post y lleoliadau lle cynhaliwyd eich gweithgaredd neu ddigwyddiad. A fyddwch cystal â rhoi enw'r prosiect neu'r digwyddiad, ynghyd â chod post y lleoliad. Bydd hyn yn ein galluogi i gael darlun daearyddol o weithgaredd ar hyd a lled Cymru.

Cwestiynau Agored a Dewisiadau Naratif

Ar ddiwedd pob un o'r adrannau ar wahân i'r un ar Gyflogaeth, rydym wedi darparu lle i chi rannu mwy o wybodaeth am gwmpas ac effaith eich gwaith. Deilliodd y cwestiwn dewisol hwn o'r ymgynghoriad yn 2018 gyda mudiadau PCC lle cafwyd cais am fwy o gyfle yn yr arolwg i roi mwy o naratif am waith y mudiad. Ni fyddwn yn cynnwys yr wybodaeth hon yn ein cyhoeddiadau ystadegau swyddogol, ond fe'i defnyddir at ddibenion eiriol eraill.

Atodiadau:

Atodiad 1: Diffiniadau o Ffuriau ar Gelfyddyd

Ffurf ar gelfyddyd	Diffiniad
Adloniant theatr	Cabare, Comedi, Digrifwyr, Sioeau Cerdd, Pantomeim, Pypedau, Amrywiaeth, Adloniant i'r Teulu.
Celf Gyhoeddus	Celf a chreffft weledol wedi'i leoli mewn man cyhoeddus. Celfyddyd tirwedd/amgylcheddol. (Y mae'n gyhoeddus, boed ar eiddo cyhoeddus neu breifat, neu os cafwyd ef gydag arian cyhoeddus neu breifat.)
Celfyddydau cyfun/celfyddydau amlddisgyblaethol	Carnifal, gwyliau a digwyddiadau gwirioneddol amlddisgyblaethol, celf gyfun gymunedol. Dylid codio gwyliau sy'n canolbwyntio ar un ffurf i'r ffurf benodol hwnnw o gelfyddyd.
Celfyddydau Gweledol	Animeiddio, Celfyddyd gain. Celf/darlunio graffig. Celfyddyd fyw. Delweddau symudol (ffilm a fideo artistiaid), Cyfryngau newydd. Cyfryngau digidol. Celfyddyd perfformio. Ffotograffiaeth. Cerflunio. Paentio. Darlunio. Gwneud printiau. Gosodiadau/celf safle-benodol, Celfyddyd aml-gyfryngol, Celfyddyd Sonig, Celfyddyd a gynhyrchir trwy gyfrifiadur, Murluniau.
Cerddoriaeth	Bandiau Pres ac Arian. Siambr. Corawl/gospel, Clasurol/cerddorfaol, Cerddoriaeth gymunedol, Clasurol Cyfoes, Cyfoes poblogaidd, Cerddoriaeth gynnar, Baróc. Cerddoriaeth arbrofol ac electronig, Cerddoriaeth jas/byrfyfyr, Gwreiddiau/gwerin, Cerddoriaeth draddodiadol, Cerddoriaeth y byd. Cerddoriaeth ieuenctid, diwylliannol benodol, siop barbwyr, cerddoriaeth Wyddelig, cerddoriaeth Gymreig, cerddoriaeth Albanaidd, fflwt/acordion a phibau, Cerddoriaeth arall.
Crefft	Serameg, Tecstilau (gan gynnwys gwau a brodwaith) Gemwaith, Arian, Metel Arall,

Ffurf ar gelfyddyd	Diffiniad
	Gwehyddu, Dodrefn, Pren, Lledr, Carreg, Gwydr, Papur (heb gynnwys crefft graffeg), Deunyddiau Synthetig (gan gynnwys plastigau), Cyfryngau Cymysg, Celfyddydau Graffeg (gan gynnwys caligraffeg, ysgrifennu arwyddion a rhwymo llyfrau).
Cynhyrchu Ffilm	Unrhyw gynhyrchiad ffilm gan weithdy/grŵp cyfranogi
Dawns	Bale, Dawns gymunedol, Dawnsio cyfoes, Dawnsio traddodiadol, Dawnsio ieuentid, Dawnsio diwylliannol-benodol, Dawnsio Cymreig, Dawnsio Gwyddelig, Dawnsio Albanaidd, Dawnsio De Asiaidd, Dawnsio Affricanaidd, Dawnsio arall.
Drama	Theatr plant a phobl ifanc, Dramâu clasurol, Theatr gymunedol, Dramâu cyfoes, Arbrofol (gan gynnwys theatr weledol a digidol), Meim, Theatr gorfforol, Ysgrifennu newydd, Theatr stryd, Sycras, Theatr mewn addysg, Theatr ieuentid, Theatr yn y Gymraeg, Drama/theatr arall.
Ffilm/Dangosiadau fideo	Pob dangosiad i'r cyhoedd gan gynnwys sinema prif-ffrwd, ffilm arbenigol neu gelfyddydol, a dangosiadau o berfformiadau 'byw' o theatr, opera, bale, etc.
Llenyddiaeth	Llenyddiaeth fyw (gan gynnwys perfformio barddoniaeth), Barddoniaeth, Rhyddiaith, ffuglen, ffeithiol, Cyhoeddi (gwaith mewn print ac ar y we), Adrodd storïau, Llenyddiaeth ieuentid, Digwyddiadau mewn llyfrgelloedd, sgysiau llenyddol, llenyddiaeth arall.
Opera	Opera a Theatr Gerdd

Atodiad 2: Diffiniadau o Gelfyddydau Gweledol a Ffuriau Crefft

Diffiniadau o Gelfyddydau Gweledol:

Cyfyngau cymysg - arddangosfeydd lle defnyddiwyd mwy nag un cyfrwng neu ddeunydd, cymysgedd o unrhyw rai o'r ffurfiau celf a restrir yn yr adran hon.

Safle-benodol

Mae hyn yn cyfeirio at waith celf a ddyluniwyd yn unswydd i leoliad arbennig ac sydd â chydberthynas â'r lleoliad

2D

Mae hyn yn cynnwys paentiadau, darluniau a ffotograffau, ac nid yw'n cynnwys ffurfiau tri-dimensiwn megis cerfluniau a phensaernïaeth.

Ffotograffiaeth

Mae'n cynnwys ffotograffiaeth ddigidol a heb fod yn ddigidol

Cyfyngau digidol

Celfyddyd a wneir neu a gyflwynir trwy ddefnyddio technoleg ddigidol

Cerflunio

Celfyddyd tri-dimensiwn a wneir trwy un o bedwar proses sylfaenol: cerfio, modelu, bwrw, adeiladu

Celfyddydau perfformio

Gweithiau celf a grëir trwy weithredoedd sy'n cael eu perfformio gan yr artist neu gyfranogwyr eraill, a all fod yn fyw neu wedi eu recordio, yn fyrfyr neu wedi eu sgriptio. Fel arfer yn cynnwys cyflwyniad byw i gynulleidfa a gall dynnu ar nifer o ffurfiau celf megis ffilm, fideo, ffotograffiaeth a gosodiadau celf

Celfyddyd sain

Celf sy'n defnyddio sain fel cyfrwng (yr hyn mae wedi ei wneud ohono) ac fel ei destun (am beth mae). Mae celfyddyd sain yn ei hanfod yn rhyngddisgyblaethol.

Comisiynau Newydd

Comisiwn: cais penodol gan sefydliad ar i artist greu gwaith newydd i'w arddangos, sydd (wedi ei osod allan mewn cytundeb gyda'r artist i gynnwys ffi, cydnabod amser yr artist i ymchwilio i'r gwaith, ei ddatblygu a'i gynhyrchu.)

Celf Gymunedol

Celf gymunedol yw gweithgaredd celfyddydol wedi ei seilio mewn lleoliad cymunedol, gydag artist proffesiynol.

Atodiad 3: Diffiniadau o Grefft a Ffuriau Celfyddyd Gymhwysol

Arddangosfeydd cyfryngau cymysg- arddangosfeydd lle defnyddiwyd mwy nag un cyfrwng neu ddeunydd, cymysgedd o unrhyw rai o'r ffuriau celf a restrir yn yr adran hon.

Arddangosfeydd amlgyfryngol- arddangosfeydd lle gwnaed y gwaith celf o amrywiaeth o ddeunyddiau a gall hefyd gynnwys elfen electronig megis sain neu fideo.

Arddangosfeydd seramig

Celf wedi ei wneud o ddeunyddiau seramig, gan gynnwys clai. Gall fod ar lawer ffurf gan gynnwys crochenwaith celfyddydol, teils, ffigurynnau, cerflunwaith a llestri.

Arddangosfeydd tecstilau

Celf tecstilau yw'r broses o greu rhywbeth gan ddefnyddio ffibrau sy'n dod o ffynonellau fel deunyddiau, ffabrigau ac edafedd naturiol neu synthetig. Gall ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.

Arddangosfeydd gwehyddu

Arddangosfeydd o ddeunyddiau wedi'u gwehyddu, rhyngblethu edafedd, stribedi etc. yn ddeunyddiau.

Arddangosfeydd gemwaith

Arddangosfeydd o emwaith a grëwyd trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

Arddangosfeydd gwaith gwydr

Mae celfyddyd gwydr yn cyfeirio at ddarnau unigol o gelf sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu yn sylweddol o wydr.

Arddangosfeydd gwaith metel/arian

Arddangosfeydd o lestri, teclynnau, gemwaith ac addurniadau a wnaed o arian neu fetelau eraill.

Arddangosfeydd Gwaith Pren

Arddangosfeydd o weithiau celf sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu yn sylweddol o bren.

Atodiad 4: Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal



Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal

Ein gweledigaeth ni yw un o Gymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn rhan ganolog o fywyd. Rydym eisiau i bawb sy'n byw yng Nghymru allu mynd at y celfyddydau, naill ai fel aelod o gynulleidfa neu rywun sy'n cymryd rhan.

Yr ydym am weld cymdeithas sydd yn derbyn cydraddoldeb ac yn datlu amrywiaeth, lle bynnag y'i ceir; mewn hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, anabledd neu dlodi.

I'n helpu i fonitro ein cynnydd ar y daith hon, hoffem ofyn i chi lenwi'r ffurflen hon trwy ddewis yr opsiynau sydd, yn eich barn chi, yn eich disgrifio orau. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni i'n helpu i sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd amrywiaeth eang o bobl a mudiadau. At ddibenion monitro yn unig y caiff yr wybodaeth ei defnyddio, a chaiff ei brosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

- Os ydych yn gwneud cais ams wydd, bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall lle mae ein hysbysebion yn cyrraedd a'r diddordeb maent yn ennyn mewn ymgeiswyr o bob cefndir. Bydd yr atebion a rowch i ni yn cael eu gwahanu oddi wrth eich cais a'u trin yn gyfrinachol. Ni chaiff y ffurflen ei rhannu gyda'r staff fydd yn asesu eich cais ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw benderfyniad ynghylch eich cais.
- Os ydych yn gwneud cais am gyllid, bydd yr atebion a rowch i ni yn cael eu gwahanu oddi wrth eich cais a'u trin yn gyfrinachol. Ni chaiff y ffurflen ei rhannu gyda'r staff fydd yn asesu eich cais ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw benderfyniad ynghylch eich cais.
- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu ein bod yn cynhyrchu Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol am ein gwaith gydag unigolion o grwpiau 'nodweddion gwarchoddedig'. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni i'n helpu wrth adrodd. Bydd unrhyw

adroddiadau a gynhyrchwn yn darparu crynodeb o ystadegau ac ni fydd modd eich adnabod chi fel unigolyn.

1. Rhywedd

- Gwryw
- Benyw
- Arall
- Gwell gen i beidio â dweud

2. Ai i'r rhywedd hon y pennwyd chi adeg eich geni?

- Ie
- Na
- Gwell gen i beidio â dweud

3. Oedran

- 25 ac iau
- 26-49
- 50 -59
- 60 a hŷn
- Gwell gen i beidio â dweud

4. Statws Perthynas

- Sengl
- Priod/Mewn Partneriaeth Sifil

- Wedi ysgaru/Gynt yn bartner sifil, y Bartneriaeth Sifil bellach wedi ei diddymu yn gyfreithlon
- Gweddw/Partner sifil sydd wedi goroesi
- Gwell gen i beidio â dweud

5. Cyfeiriadedd Rhywiol

- Heterorywiol/Strêt
- Hoyw/Lesbiaidd
- Deurywiol
- Arall
- Gwell gen i beidio â dweud

6. Crefydd/Cred

- Bwdist
- Cristion
- Hindŵ
- Iddewig
- Mwslemaidd
- Sîc
- Dim Crefydd
- Arall
- Gwell gen i beidio â dweud

7. Tarddiad Ethnig

Gwyn

- Cymreig /Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi/Roma/Teithiwr
- Unrhyw gefndir gwyn arall

Grwpiau cymysg / aml-ethnig

Gwyn a Du Caribiaidd

- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir arall cymysg / aml-ethnig

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

- Pacistanaidd
- Indiaidd
- Bangladeshaid
- Tsineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig

- Affricanaidd
- Caribiaidd
- Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd arall

Grŵp Ethnig Arall Group

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion)

8. Sut y buasech chi'n disgrifio eich Hunaniaeth Genedlaethol?

Dewiswch bob un sy'n gymwys

- Prydeinig
- Cymreig
- Seisnig
- Albanaidd
- Gogledd Iwerddon
- Hunaniaeth genedlaethol arall
- Gwell gen i beidio â dweud

9. Fel menyw, a ydych yn feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth?

Nid yw'r cwestiwn hwn yn gymwys i ymgeiswyr gwryw

- Ydw
- Na
- Gwell gen i beidio â dweud

10. Dydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio unigolyn fel anabl os oes ganddo/i nam corfforol neu feddyliol, sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu'r unigolyn i wneud gweithgareddau beunyddiol arferol ac sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, 12 mis o leiaf

- Ydw
- Na
- Gwell gen i beidio â dweud

Diolch am lenwi'r ffurflen hon. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd yr wybodaeth a roesoch yn cael ei drin yn gyfrinachol, ac na chaiff ei brosesu gyda'ch cais.



Adran Un: Arddangosfeydd o Gelfyddydau Gweledol a Chrefftau a Chelfyddydau Cymhwysol

Yn yr adran hon, hoffem i chi ddweud wrthym am eich arddangosfeydd o gelfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol sydd wedi'u curadu'n broffesiynol. Mae diffiniad o gelfyddydau gweledol a chrefftau a chelfyddydau cymhwysol yn y dosbarthiadau Ffurfiâu ar Gelfyddyd yn y Canllaw Cyffredinol.

Rhan 1: Arddangosfa fesul Ffurf ar Gelfyddyd

Amcangyfrif a gweithio allan bresenoldeb mewn arddangosfeydd

Sylwch: Dylai'r arddangosfeydd a gynhwysir yn yr adran hon fod wedi eu curadu'n broffesiynol gyda gwybodaeth ategol, deunydd dehongliadol, a gwybodaeth ar eich gwefan.

Yr ydym yn deall fod gwahanol ddulliau o weithio allan ac amcangyfrif presenoldeb mewn arddangosfeydd. Bydd y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar eich lleoliad a'r math o arddangosfa. Wedi i chi roi'r data am yr arddangosfeydd, rhwch enwau'r arddangosfeydd a'ch dull o weithio allan/amcangyfrif y presenoldeb yn y blwch sylwadau.

Rhan 2: Math o Arddangosfa

Dywedwch wrthym sawl arddangosfa wahanol a ddeilliodd o'ch mudiad, neu a dderbyniwyd fel arddangosfa deithiol o leoliad arall.

Dywedwch hefyd faint o gomisiynau newydd a fu yn ystod y cyfnod o chwe mis.

Comisiwn Newydd: cais penodol gan fudiad i artist greu gwaith newydd i'w arddangos, sydd wedi'i osod allan mewn cytundeb gyda'r artist i gynnwys ffi, yn cydnabod amser yr artist yn ymchwilio, datblygu a chynhyrchu'r gwaith.

Arddangosfeydd Teithiol

Os ydych wedi nodi fod eich lleoliad yn derbyn arddangosfeydd teithiol, yna bydd angen i chi ddweud o lle daeth yr arddangosfeydd.

Arddangosfeydd Un Person neu Grŵp

Os oedd unrhyw rai o'ch arddangosfeydd yn canoli ar waith gan un artist, rhestrwch hyn dan 'arddangosfeydd un person'. Ar gyfer arddangosfeydd sy'n dangos gwaith mwy nac un artist, rhowch y nifer dan 'arddangosfeydd grŵp'.

Sylwch: Rhaid i gyfanswm nifer yr arddangosfeydd a nodwyd gennych yma gyfateb i gyfanswm nifer yr arddangosfeydd a nodwyd gennych yn Rhan A.

Cydweithrediadau

O'r arddangosfeydd a ddangoswyd dros y 6 mis a aeth heibio, dywedwch wrthym faint a lwyfannwyd mewn cydweithrediad â lleoliadau/mudiadau eraill. Hefyd, yn y blwch sylwadau, rhowch enw'r arddangosfeydd a'r mudiadau y buoch yn cydweithio â hwy.

Artistiaid a Gynrychiolir mewn Arddangosfeydd

Dywedwch wrthym faint o artistiaid fu'n rhan o'r holl arddangosfeydd a gynhaliwyd gennych dros y chwe mis diwethaf. Yr ydym hefyd eisiau gwybod faint o'r rhain gafodd eu hyfforddi neu sydd yn gweithio ar hyn o bryd yng Nghymru.

Tarddiad eich hun

Atebwch y cwestiwn hwn yn unig os mai yn eich enw chi y tarddodd yr arddangosfeydd.

Dywedwch wrthym faint o'ch arddangosfeydd eich hun a ddangoswyd mewn lleoliadau eraill dros y 6 mis diwethaf; naill ai yng Nghymru, yn y DU ond y tu allan i Gymru, neu'r tu allan i'r DU. Rhowch hefyd restr o godau post y lleoliadau lle cynhaliwyd yr arddangosfeydd.

Celf Gymunedol

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod am waith eich mudiad yn y gymuned.

Sylwch: Celf gymunedol yw gweithgaredd sydd wedi ei leoli mewn cymuned, ac sy'n cynnwys artist proffesiynol.

Os cynhaliodd eich mudiad arddangosfeydd mewn safleoedd eraill yn eich cymuned, neu os oeddent wedi eu seilio ar waith artistiaid cymunedol, atebwch y cwestiynau hyn. Ar gyfer arddangosfeydd a gynhaliwyd mewn safleoedd eraill, rhowch hefyd god post y safle lle cynhaliwyd yr arddangosfa.

Rhan 3: Cyhoeddiadau Arddangosfeydd

Nodwch unrhyw lenyddiaeth a gynhyrchwyd i gyd-fynd ag arddangosfa. Mae hyn yn cynnwys catalogau arddangosfeydd, ond nid deunydd hyrwyddo. Rhowch nifer y teitlau unigol a gynhyrchwyd ac iaith argraffu'r teitl.

Rhan 4: Gwaith wedi'i dargedu

O gyfanswm yr arddangosfeydd a nodwyd yn Rhan A, dywedwch wrthym faint o'ch arddangosfeydd oedd wedi eu creu gan neu eu targedu at y grwpiau isod; Rhestrwch y ffigurau ar wahân yn yr adran hon:

- Pobl Anabl
- Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Siaradwyr Cymraeg
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Os targedwyd yr arddangosfeydd at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pob grŵp cymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Rhan 5: Gwaith wedi'i dargedu neu ymgysylltu

- Celfyddydau a Iechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Iloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn Saesneg)

Byddwn yn cysylltu gyda chi efo cwpl o cwestiynau os rydych wedi gweithio efo unrhyw un o'r grwpiau yma.

Rhan 6: Cwmpas ac Effaith y gwaith

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC, cafwyd galwad am gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r data rhifol. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn pob adran, rydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd yr adran hon i chi allu dweud mwy wrthym am gwmpas ac effaith eich gwaith. Gallwn gysylltu â chi am y wybodaeth a ddarperir yma i'w gynnwys mewn adroddiadau eraill gan Gyngor y Celfyddydau y byddwn yn gyhoeddi. Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Adran Dau: Gweithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc

Yn yr adran yma rydym ni am gael gwybod am eich gweithgarwch celfyddydol ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc yn yr oed 0-25. Dylech chi gynnwys unrhyw weithgarwch ymgyfranogol arall yn yr adran **Ymgyfranogi cyffredinol**.

Mae'r cwestiynau yma wedi'u rhannu'n 4 is-bennawd:

- 1) prosiectau sy'n targedu plant a phobl ifanc mewn **ysgolion/addysg**
- 2) prosiectau sy'n targedu plant a phobl ifanc yn gyffredinol – **y tu allan i ysgolion/addysg**
- 3) theatr ieuenctid, cerddoriaeth ieuenctid, dawnys ieuenctid, y celfyddydau perfformio i ieuenctid sy'n digwydd yn rheolaidd; **mae'r grwpiau yma'n wahanol oherwydd eu bod yn cwrdd yn rheolaidd ac yn aml mae perfformiad cyhoeddus wedyn**
- 4) gweithgarwch ymgyfranogol i blant a **phobl ifanc sy'n targedu grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchoddedig**

Gweithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc mewn ysgolion/addysg

Rhan 1

Dim ond ar gyfer sesiynau ymgyfranogol rydych chi wedi'u cynnal i blant a phobl ifanc mewn ysgolion/addysg. Os ydych chi wedi llogi lle yn eich adeilad i rywun arall ar gyfer gweithdy a dyma'r unig fewnbwn roeddech chi wedi'i gael yn y broses, peidiwch â'i gynnwys.

Gyda llaw, mae un 'sesiwn' yn gallu para am hanner diwrnod neu lai. Felly byddai cwrs diwrnod llawn, o 9am hyd 5pm, yn cyfrif fel dwy sesiwn, ac un o 1pm hyd 6m fel un sesiwn.

Rhaid ichi wedyn lenwi manylion o'r gweithgaredd yn ôl y gelfyddyd berthnasol ac yn ôl iaith.

Dyma ein dewisiadau o ran iaith:

- Saesneg
- Cymraeg
- arall
- dwyieithog
- amlieithog
- iaith amherthnasol

Diffiniadau:

- **Dwyieithog** – Cymraeg a Saesneg yn unig
- **arall** - os oedd mewn iaith arall heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg
- **amlieithog** - os darparwyd y sesiwn mewn **dwyr neu fwy o ieithoedd** ar wahan i Cymraeg a Saesneg er enghraifft, Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg)

Rhaid ichi nodi sawl prosiect, sesiwn a mynychiad ar gyfer pob celfyddyd. Er enghraifft, byddai cyfres o ddosbarthiadau dawns fin nos yn cyfrif fel un prosiect. Os yw'r dosbarth yn cael ei gynnal dros 6 noswaith, byddai'n cyfrif fel 6 sesiwn. Gyda 10 o bobl yn mynychu pob sesiwn, cyfanswm y mynychuadau fydd 60.

Am ddiffiniad o'r celfyddydau, darllenwch y canllawiau cyffredinol.

Rhan 2

Nodwch nifer yr ysgolion roeddech chi wedi ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn - yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol.

Gweithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc y tu allan i ysgolion/addysg

Rhan 3

Yma rydym ni am wybod y math o'ch gweithgareddau sy'n targedu plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgolion/addysg. Peidiwch â chynnwys gweithgarwch mewn ysgolion/addysg - yn rhan 1 mae ei le.

Yma dim ond sesiynau ymgyfranogol rydych chi wedi'u cynnal fel rhan o'ch rhaglen y dylech chi eu cynnwys. Os ydych chi'n cynnal sesiynau ar safleoedd allanol nad ydynt yn rhai addysgol, dylech chi gynnwys y rhain. Os ydych chi wedi llogi lle yn eich adeilad i rywun arall ar gyfer gweithdy a dyma'r unig fewnbn roeddech chi wedi'i gael yn y broses, peidiwch â'i gynnwys.

Rhaid ichi wedyn lenwi manylion o'r gweithgaredd yn ôl y gelfyddyd berthnasol ac yn ôl iaith.

Rhan 4

Dylech chi ateb y cwestiwn yma os ydych chi'n cynnal gweithgarwch celfyddydol ymgyfranogol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion/addysg a'r tu allan i ysgolion/addysg. Nodwch ystod oedran y plant rydych chi'n eu targedu. Ticiwch ragor nag un categori os oes angen.

Theatr ieuentid, cerddoriaeth ieuentid, dawns ieuentid, y celfyddydau perfformio i ieuentid sy'n digwydd yn rheolaidd

Rhan 5

Rhowch wybod inni os ydych chi'n cynnal theatr ieuentid, cerddoriaeth ieuentid, dawns ieuentid neu'r celfyddydau perfformio i ieuentid sy'n ymgyfranogol ac sy'n digwydd yn rheolaidd. Mae'r prosiectau yma'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu nodi yn rhannau 1-4. Rydym ni'n disgwyl iddynt ddigwydd yn fwy rheolaidd ac yn diweddu'n aml gyda pherfformiad. Er enghraifft, côr sy'n cwrdd yn wythnosol am ddeg wythnos gan arwain at gyngerdd, yn hytrach na gweithdy canu sy'n digwydd nawr ac yn y man.

Yma dim ond sesiynau ymgyfranogol rydych chi wedi'u cynnal fel rhan o'ch rhaglen y dylech chi eu cynnwys. Os ydych chi wedi llogi lle yn eich adeilad i rywun arall ar gyfer gweithdy a dyma'r unig fewnbwn roeddech chi wedi'i gael yn y broses, peidiwch â'i gynnwys.

Rhan 6

Os oedd perfformiad gan unrhyw grŵp o ganlyniad i weithgarwch celfyddydol ieuentid rheolaidd, rhowch wybod inni faint o berfformiadau oedd wedyn a nifer y mynychiaid. Rhowch y data dan y categori priodol o ran iaith.

Gweithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc

Rhan 7

O'ch prosiectau ymgyfranogol oedd yn targedu plant a phobl ifanc, faint oedd yn targedu'r grwpiau canlynol:

- pobl anabl
- pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol
- siaradwyr Cymraeg
- lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion
- pobl drawsryweddol
- pobl hŷn (50+ oed)
- pobl grefyddol
- menywod beichiog a mamau newydd
- teuluoedd

Os oedd y prosiectau'n targedu mwy nag un grŵp, rhowch nhw ym mhob categori perthnasol.

Bydd y data rydym ni'n ei gasglu'n cael ei gyfuno yn ein hadroddiadau monitro a chydaddoldebau inni allu gweld tueddiadau yn y maes.

Rhan 8: Cynyrchiadau sy'n targedu grwpiau penodol

O'r prosiectau ymgyfranogol oedd yn targedu plant a phobl ifanc, faint oedd yn targedu neu yn ymgysylltu a'r grwpiau canlynol:

- y celfyddydau ac iechyd
- digartrefedd
- teuluoedd isel eu hincwm
- ffoaduriaid a/neu geiswyr lloches
- cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs yn Saesneg)

Os ydych chi wedi gweithio gydag unrhyw un o'r grwpiau hyn, byddwn ni'n cysylltu â chi gydag ychydig o gwestiynau ychwanegol.

Rhan 9

Yn ystod adolygiad 2018 o arolwg y Portffolio, roedd galwad am ragor o gyfleoedd i ddarparu naratif i gyd-fynd â'r ffigurau i greu darlun llawnach. Mae blychau sylwadau ar ddiwedd y rhan fwyaf o rannau 1-6, ond rydym ni wedi creu blwch sylwadau dewisol ar y diwedd ichi nodi cyrhaeddiad ac effaith y gweithgarwch dan sylw. Ni fyddwn ni'n cynnwys y wybodaeth yma yn ein hadroddiadau ystadegau swyddogol, ond efallai y byddwn ni'n ei chynnwys mewn adroddiadau eraill.

Adran Tri: Gweithgarwch Celfyddydol Ymgyfranogol Cyffredinol

Yn yr adran yma, rydym ni'n trafod gweithgarwch celfyddydol ymgyfranogol cyffredinol roedd eich sefydliad wedi'i gynnal yn ystod y 6 mis diwethaf **nad** oedd yn targedu'n benodol blant a phobl ifanc. (Plant a phobl ifanc yw'r rhai rhwng 0 a 25 oed.)

Ni ddylech chi gynnwys yn yr adran yma weithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc.

Rhan 1: Gweithgarwch Celfyddydol Ymgyfranogol Cyffredinol

I weld diffiniad o'r celfyddydau, darllenwch y canllaw cyffredinol.

Mae sesiynau ymgyfranogol yn gallu cynnwys:

- gweithdai
- dosbarthiadau
- ymarferion

Dylech chi gofnodi sgysiau a sesiynau holi ac ateb dan adran Gwasanaethau i'r Sector a'r Gymdeithas Ehangach.

Dim ond sesiynau ymgyfranogol y mae eich sefydliad wedi'u cynnal yn rhan o'ch rhaglen (gan gynnwys sesiynau mewn safleoedd allanol) y dylech chi eu cynnwys.

Os gwnaeth rhywun arall logi lle yn eich sefydliad i gynnal gweithdy, a dyma'r unig fewnbwn rydych chi wedi ei gael yn y broses, peidiwch â'u cynnwys.

Mae un 'sesiwn' yn gallu para am hanner diwrnod neu lai. Felly bydd cwrs undydd, o 9am hyd 5pm, yn cyfrif fel dwy sesiwn a gweithdy prynhawn o 1pm hyd 6pm fel un.

Rhowch wybod inni sawl prosiect, sesiwn a mynychiad sydd ar gyfer pob celfyddyd gan nodi beth oedd iaith y sesiwn. Er enghraifft: mae gennych 1 prosiect dawns gyda'r sesiynau yn y Gymraeg. Maen nhw dros 6 noswaith. Felly 6 sesiwn Gymraeg. Mae 10 o bobl yn mynychu pob sesiwn felly 60 mynychiad.

Dylech chi gofnodi cyfanswm y mynychuadau i sesiynau dan iaith y sesiwn, ni waeth beth yw iaith yr ymgyfranogwyr/mynychwyr.

Mae ein dewisiadau o ran iaith yn cynnwys:

- Cymraeg
- Saesneg
- arall
- dwyieithog
- amlieithog
- iaith amherthnasol

Diffiniadau

Dwyieithog – Cymraeg a Saesneg yn unig

Arall – iaith arall heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg

Amlieithog - os nad yw'r cynhyrchiad yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ond yn cynnwys dwy iaith (er enghraifft - Cymraeg a Groeg, Saesneg a Ffineg)

Os ydych chi'n gwybod, mae cwestiwn ar ddiwedd pob celfyddyd sy'n gofyn am god post eich gweithgarwch. Rhowch y cod post yn y man priodol.

Rhan 2: Gwaith o ganlyniad y gweithgarwch ymgyfranogol cyffredinol

Rhowch wybod inni am bob perfformiad, ffilm neu arddangosfa amatur sy'n ganlyniad uniongyrchol i'ch gweithgarwch ymgyfranogol cyffredinol.

Cofiwch fod gwaith yn amatur pan nad yw'r perfformwyr neu'r gwneuthurwyr yn cael eu talu ac nad ydyn nhw'n gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant.

Os oedd unrhyw ffilm amatur a oedd yn deillio o'ch gweithgarwch ymgyfranogol, rhowch wybod inni faint ohonyn nhw oedd yn cael eu creu a'u sgrinio yn ystod y 6 mis diwethaf.

Rhan 3: Gweithgarwch ymgyfranogol cyffredinol a wnaeth targedu unrhyw rhai o'r canlynol:

O'r gwaith yn rhan 1, rhowch wybod inni faint ohono oedd targedu'r grwpiau yma:

- Pobl anabl
- Pobl dduon, Asiaidd ac ethnig
- Siaradwyr Cymraeg
- Lesbiaid, hoywon a deurywolion
- Pobl drawsryweddol
- Pobl hŷn (dros eu 50 oed)

- Pobl grefyddol
- Menywod beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Ni ddylech chi gynnwys yn yr adran yma weithgarwch ymgyfranogol sy'n targedu plant a phobl ifanc.

Os oedd cynrychiadau'n targedu mwy nag un grŵp, nodwch y gweithgarwch dan bob grŵp perthnasol.

Bydd y data yn cael ei grynhoi yn ein hadroddiadau i fonitro'r cydraddoldebau inni allu edrych ar dueddiadau yn y maes.

Rhan 4: Prosiectau sy'n dargedu neu yn ymgysylltu efo:

Wnaeth y prosiect dargedu neu ymgysylltu â unrhyw rhai o'r canlynol:

- Celfyddydau a lechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn Saesneg)

Byddwn yn cysylltu gyda chi efo cwpl o cwestiynau os rydych wedi gweithio efo unrhyw un or grwpiau yma.

Rhan 5: Cwmpas ac Effaith

Yn ystod ein hadolygiad o'r arolwg Portffolio, roedd galw am gyfleoedd i roi naratif i gyd-fynd â'r holl rifau. Felly rydym ni wedi creu blwch sylwadau ychwanegol ar ddiwedd yr adran yma, ichi ddisgrifio cyrraedd ac effaith eich gwaith. Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi am y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yma er mwyn ei chynnwys mewn adroddiadau rydym ni'n eu cyhoeddi.

Ni fydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiadau ystadegau swyddogol, ond efallai bydd mewn adroddiadau eraill rydym ni'n eu cyhoeddi.

Adran Pedwar: Arlein a Darlledu

Yn yr adran hon, yr ydym eisiau clywed am ddarlledu a ffrydio eich gwaith arlein, ar eich gwefan a'ch gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol. Yr ydym hefyd eisiau gwybod am unrhyw gyfweiliadau a roddodd eich mudiad am ei waith.

Rhan 1 - Darllediadau

Cwestiwn am ddarllediadau rhwydwaith teledu a radio

Rhowch nifer y darllediadau gwahanol a wnaed o'ch gwaith gan sianeli teledu neu orsafoedd radio'r rhwydwaith, a'r rhanbarth daearyddol lle darlledwyd hwy. Gall hyn fod yn waith byw neu wedi ei recordio ymlaen llaw. **Peidiwch** â chynnwys ffrydio ar-lein yn y cwestiwn hwn.

Mae sianeli/gorsafoedd y rhwydwaith yn dilyn amserlen ddarlledu benodol (h.y., nid dim ond ar alw). Defnyddiwch y blwch sylwadau i ddweud wrthym pa sianeli a gorsafoedd radio sydd wedi darlledu eich gwaith.

Cwestiwn am ffrydio eich gwaith arlein

Mae gennym ddiddordeb yn faint o'ch gwaith a wnaed ar gael i'w ffrydio arlein gan ddarlledwr trydydd parti rhyngwyd-yn-unig neu ar-alw (e.e. The Opera Platform, iPlayer, Clic, BBC Sounds, All 4) neu y gwnaethoch chi ei ffrydio eich hun (e.e. trwy Facebook Live neu Youtube). Mae gennym ddiddordeb hefyd yn y nifer a wylodd/glywodd y gweithiau hyn. Gall gwaith fod wedi ei ffrydio'n fyw a/neu ei recordio ymlaen llaw (ar alw) ond rhaid iddo fod yn ddarllediad o'r gwaith ei hun ac nid darn i hyrwyddo. Defnyddiwch y blwch sylwadau i ddweud wrthym ar ba lwyfannau y bu eich gwaith.

Cwestiwn am Gyfweiliadau

Rhowch nifer y cyfweiliadau a roddodd eich mudiad am eich gwaith; rhowch hwy dan radio, teledu neu arlein. Gallai arlein gynnwys llwyfannau megis Youtube, a phapurau newydd arlein.

Cwestiwn am iaith

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi gofnodi iaith unrhyw ddarllediadau/ffrydio. Dylai'r data fod yn gyfanswm holl ddarllediadau/ffrydiau/cyfweiliadau'r gwaith a gynhwyswyd yn eich atebion blaenorol.

Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: **Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog a iaith heb fod yn Berthnasol.**

Diffiniadau:

Dwyieithog – Cymraeg **A** Saesneg **YN UNIG**

Arall Os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg

Amlieithog –os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd, e.e.,Cymraeg, Saesneg a Groeg

Rhan 2: Gwaith Targeddu

Dywedwch wrthym y nifer o darllediadau neu gwaith ffrydio â oedd wedi eu targedu'n benodol at y grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched Beichiog a Mamau Newydd
- Teuluoedd

Os oedd cynyrchiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pobl grŵp sy'n gymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Rhan 3: Gwefan

Cwestiwn am nifer yr ymwelwyr â'r wefan

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi ddarparu nifer yr ymweliadau â'ch gwefan dros y cyfnod o 6 mis a hefyd nifer yr ymweliadau unigryw (nifer yr ymwelwyr penodol â'ch gwefan).

Cwestiwn am nodweddion y wefan

Ticiwch o'r rhestr sydd ar gael holl nodweddion eich gwefan. Gallai cefnogaeth i ymwelwyr anabl gynnwys nodweddion fel: defnyddio tagiau alt, Canllawiau Arolwg PCC, diweddarwyd ddiwethaf: Mehefin 2019

rhoddwyd prawf ar y safle gan ddefnyddio darllenydd sgrin a/neu bod y safle'n gweithio os dewisodd y defnyddiwr liw cefndir gwahanol. Os gallwch roi dadansoddiad o gyfran y wefan a ddefnyddir ar gyfer pob nodwedd, rhowch % yn y golofn nesaf. Gall hyn fod yn amcangyfrif.

Cwestiwn am ddata cynulleidfaoedd/ymwelwyr

Ticiwch holl feysydd eich gwefan lle'r ydych wedi defnyddio data am gynulleidfaoedd/ymwelwyr a ddaliwyd o'ch gwefan.

Rhan 4: Cyfryngau Cymdeithasol

Cwestiwn ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau

Ticiwch yr holl rwydweithiau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae eich mudiad yn ddefnyddio. Yr hyn a olygwn gan rwydwaith yw eich bod yn anelu cynnwys at ddilynwyr ac yn cyfathrebu a hwy ar y llwyfan hwnnw. Yr hyn a olygwn gan lwyfan yw eich bod yn defnyddio'r llwyfan i gynnal cynnwys creadigol. Os oes rhwydwaith neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol yr ydych yn ddefnyddio ac nad yw wedi ei restru, nodwch hynny yn y blwch arall.

Cwestiwn am gynnwys fideo newydd

Rhowch swm y cynnwys fideo newydd a uwchlwythwyd yn y cyfnod chwe mis yn ogystal â'r ffigyrau gwyllo ar ei gyfer. Hefyd, rhowch gyfanswm y ffigyrau gwyllo am yr holl gynnwys a uwchlwythwyd ar y wefan.

Rhan 5: Gwaith â wnaeth dargedu neu ymgysylltu â'r canlynol:

- Celfyddydau a lechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Iloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn Saesneg)

Byddwn yn cysylltu gyda chi efo rhai cwestiynau os rydych wedi gweithio efo unrhyw un or grwpiau yma.

Rhan 6: Cwmpas ac Effaith

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC 2018, cafwyd galwad am fwy o gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r ffigyrau yr ydym yn gofyn amdanynt. Mae hyn er mwyn i ni gael darlun llawnach o'r gweithgareddau. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn y rhan fwyaf o Rannau 1-3, rydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd adran yr arolwg i chi allu dweud mwy wrthym am gwmpas ac effaith y gwasanaethau y buoch yn eu darparu dros y 6 mis a aeth heibio. Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Canllawiau Arolwg PCC, diweddarwyd ddiwethaf: Mehefin 2019

Adran Pump: Ffilm

Yn yr adran hon mae gennym ddiddordeb mewn pob dangosiad cyhoeddus o ffilmiau. Cofnodwch nifer teitlau gwahanol ffilmiau, nifer y dangosiadau o'r ffilm honno, a'r niferoedd oedd yn bresennol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys dangosiadau o berfformiadau byw ar ffilm.

Rhan 1: Teitlau Ffilmiau

Ar gyfer teitl pob ffilm (hyd llawn a ffilmiau byrion) rhwch enw'r ffilm dan y categori iaith perthnasol.

Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: **Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog** a iaith heb fod yn Berthnasol.

Diffiniadau:

- **Dwyieithog** – Cymraeg A Saesneg **YN UNIG**
- **Arall** Os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg
- **Amlieithog** – os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd, e.e., Cymraeg, Saesneg a Groeg

Rhan 2: Dangosiadau o Ffilmiau

Dywedwch wrthym beth oedd cyfanswm nifer dangosiadau'r holl ffilmiau hyd llawn a byrion a ddangoswyd gan eich mudiad dros y 6 mis a aeth heibio. Rhwch enw'r ffilm gyferbyn â nifer y dangosiadau dan y categori iaith. Er enghraifft, teitl un ffilm fyddai The Favourite ond efallai i chi ei dangos 6 gwaith.

Rhan 3: Dangosiadau Hygyrch o Ffilmiau

Yn yr adran hon mae gennym ddiddordeb yn hygyrchedd eich dangosiadau. Dywedwch wrthym am nifer y dangosiadau oedd yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain (neu iaith arwyddion arall), Disgrifiad Sain ac Uwchdeitlau.

Rhan 4: Presenoldeb

Rhwch gyfanswm niferoedd oedd yn bresennol mewn dangosiadau ffilm gan eich mudiad. Rhwch enw'r ffilm gyferbyn â nifer y rhai oedd yn bresennol dan y categorïau iaith y dangosiad.

Rhan 5: Gweithgaredd wedi'i Dargedu

O'r ffilmiau a ddangoswyd gan eich mudiad, dywedwch wrthym faint oedd wedi eu targedu'n benodol at y grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Siaradwyr Cymraeg
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Os oedd dangosiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pob grŵp cymwys. Cofiwch hefyd ddarparu naratif byr.

Rhan 6: Ffilm â dargedwyd neu ymgysylltwyd â'r canlynol:

- Celfyddydau a Iechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEET yn Saesneg)

Byddwn yn cysylltu gyda chi efo cwpl o cwestiynau os rydych wedi gweithio efo unrhyw un o'r grwpiau yma.

Rhan 7: Cynnwys Amgen yn cael ei Ffrydio'n Fyw

Mae a wnelo dangos cynnwys amgen sy'n cael ei ffrydio'n fyw yn unig â chynnwys na chafodd ei gynhyrchu na'i olygu fel ffilm. Rhaid i chi lenwi'r adran hon yn unig os yw eich rhaglen yn cynnwys dangosiadau o berfformiadau byw sy'n cael eu ffrydio i'ch lleoliad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys perfformiadau gan Opera'r Met Efrog Newydd, y National Theatre neu Bale'r Bolshoi. Gall y rhain fod naill ai yn gynnwys sy'n cael ei ffrydio'n fyw, neu berfformiadau a ffilmwyd yn fyw i'w dangos wedyn yn ddigidol. Cofnodwch nifer y digwyddiadau unigol a ddangoswyd, nifer y dangosiadau o'r digwyddiad hwnnw, a'r nifer oedd yn bresennol dan y ffurf berthnasol o

gelfyddyd. Dylai data y byddwch yn ei gynnwys yn yr adran hon hefyd gael ei gynnwys yn adrannau A-E.

Rhan 8: Cwmpas ac Effaith

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC, cafwyd galwad am gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r data rhifol. Mae hyn er mwyn i ni adeiladu darlun llawnach o weithgareddau. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn y rhan fwyaf o Rannau 1-6, yr ydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd adran yr arolwg i chi gael dweud unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei wybod am gwmpas ac effaith eich rhaglen o ffilmiau dros y 6 mis a aeth heibio. Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Adran Chwech: Cwmnïau Perfformio/Teithio

Llenwch yr adran hon os yw eich mudiad yn cynhyrchu unrhyw fath o waith perfformio ar gyfer y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys pob cwmni teithio (cerddoriaeth, opera, dawnnau a theatr) ac unrhyw leoliadau gyda chwmnïau cynhyrchu preswyl

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ymdrin â gweithgaredd eich mudiad dros y chwe mis a aeth heibio ac y maent yn cynnwys: nifer y cynrychiadau, nifer y perfformiadau a'r niferoedd oedd yn bresennol yn y perfformiadau

Rhan 1: Cynrychiadau

Yn rhan gyntaf yr adran hon, mae gennym ddiddordeb yn y cynrychiadau a'r cyd-gynrychiadau a redwyd gan eich mudiad dros y chwe mis a aeth heibio. Nodwch na ddylai nifer y perfformiadau fod yn fwy na chyfanswm nifer y cynrychiadau.

Mae ail ran yr adran hon yn gofyn faint o gynrychiadau a **arweiniwyd*** gan y grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Iaith Gymraeg

*Yr ydym yn ystyried bod mudiadau'n cael eu harwain os yw o leiaf 51% o'u huwch-reolwyr, pwyllgor rheoli, bwrdd neu gorff llywodraethol yn diffinio eu hunain fel rhan o'r grŵp targed penodol (Nodweddion Gwarchoddedig).

Rhan 2: Comisiynau Newydd

Yn adran gyntaf Rhan 2, dywedwch wrthym a yw nifer y cynrychiadau (a nodwyd yn Rhan 1) yn gomisiynau newydd a wnaed gan eich cwmni yn ystod y chwe mis a aeth heibio, ac a oedd yr artistiaid wedi eu lleoli yng Nghymru neu y tu allan. Gall comisiwn newydd gynnwys sgriptiau newydd yn ogystal â fersiynau newydd neu addasiadau o weithiau sy'n bodoli eisoes.

Mae ail adran Rhan 2 yn gofyn faint a ddatblygwyd gan y grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Iaith Gymraeg

Rhan 3: Perfformiadau

O nifer y cynyrchiadau a gyflwynwyd yn Rhan A, dywedwch wrthym beth oedd cyfanswm nifer y perfformiadau a roes eich mudiad yn ystod y chwe mis a aeth heibio. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybod lle cynhaliwyd y perfformiad, h.y., Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r tu allan i'r D.U. A faint o berfformiadau a ddefnyddiodd: Uwchdeitlau, Disgrifiad Sain, Iaith Arwyddion Prydain. Ar gyfer cwestiwn 6, dylai lleoliadau cynhyrchu adrodd am fanylion perfformiadau eu cwmni eu hunain tra bod cwestiwn 7 yn ymwneud â gwaith cwmnïau sy'n ymweld.

Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: **Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog a iaith heb fod yn Berthnasol.**

Diffiniadau:

Dwyieithog – Cymraeg A Saesneg YN UNIG

Arall Os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg

Amlieithog –os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd, e.e., Cymraeg, Saesneg a Groeg

Rhan 4: Presenoldeb

Rhowch nifer y rhai oedd yn bresennol yn y perfformiadau a nodwyd yn Rhan 3. Cofiwch gynnwys y sawl oedd yn bresennol mewn cynyrchiadau mewn ysgolion (am ddim a gwerthiant tocynnau). Peidiwch â chynnwys tocynnau a roddwyd am ddim.

Gan nad oes modd i ffigyrau am berfformiadau stryd yn wastad fod yn fanwl gywir, rydym yn hapus i chi ddefnyddio amcangyfrif o ffigwr.

Rhan 5: Perfformiadau wedi eu Targedu at Grwpiau Penodol

Nodwch nifer y: cynyrchiadau a pherfformiadau yn ystod y chwe mis a aeth heibio oedd wedi eu **targedu** at y grwpiau isod:

Canllawiau Arolwg PCC, diweddarwyd ddiwethaf: Mehefin 2019

- Pobl Anabl
- Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Pobl Drawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Iaith Gymraeg

Os oedd cynrychiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pobl grŵp sy'n gymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Sylwch fod gweithgaredd sydd wedi ei **dargedu** yn wahanol i weithgaredd a **arweiniwyd**

Rhan 6: Cynhyrchiadau wedi eu targedu neu ymgysylltu at y grwpiau canlynol

- Iechyd a celf
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr lloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEET's yn Saesneg)

Rhan 7: Cwmpas ac Effaith

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC, cafwyd galwad am gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r data rhifol. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn pob adran, rydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd yr adran hon i chi allu dweud mwy wrthym am gwmpas ac effaith eich gwaith. Gallwn gysylltu â chi am y wybodaeth a ddarperir yma i'w gynnwys mewn adroddiadau eraill gan Gyngor y Celfyddydau y byddwn yn gyhoeddi.

Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Adran Saith: Berfformiadau Cyhoeddus Byw mewn Lleoliadau Cyflwyno

Llenwch yr adran hon yn unig os yw eich lleoliad yn cyflwyno perfformiadau cyhoeddus byw.

Os ydych yn Gwmni Cynhyrchu gyda'ch lleoliad eich hun, dylech gynnwys eich gwybodaeth yn adran Cwmnïau Perfformio/Teithio yr arolwg.

Rhan 1

Dywedwch wrthym sawl cynhyrchiad a nifer y perfformiadau ym mhob ffurf o gelfyddyd a lwyfannwyd gan eich lleoliad yn ystod y 6 mis a aeth heibio, ynghyd â'r nifer oedd yn bresennol. Bydd angen i chi rannu'r rhain yn ôl darnau o waith amatur neu broffesiynol.

Dan bob ffurf o gelfyddyd a restrir, rhowch enwau'r cynyrchiadau hyn.

Mae darn o waith yn broffesiynol os yw'r perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant. Nid yw perfformiadau â thocynnau yn berfformiadau proffesiynol oni fydd y perfformwyr yn cael eu talu ac yn gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant.

Gwnewch yn siwr, os ydych wedi rhoi nifer y cynyrchiadau, eich bod hefyd wedi rhoi nifer y perfformiadau a'r niferoedd oedd yn bresennol ym mhob perfformiad.

Ar wahan i Ddawns, bydd angen i chi hefyd rannu iaith eich cynyrchiadau yn ôl iaith. Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: **Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog a Iaith heb fod yn Berthnasol.**

Diffiniadau:

Dwyieithog – Cymraeg **A** Saesneg **YN UNIG**

Arall Os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg

Amlieithog –os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd, e.e.,Cymraeg, Saesneg a Groeg

Rhan 2

Dywedwch wrthym faint o gynyrchiadau byw a nifer y perfformiadau a lwyfannwyd yn eich lleoliad gan gwmnïau **o'r tu allan i'r DU** yn ystod y chwe mis a aeth heibio, ynghyd â'r niferoedd oedd yn bresennol ym mhob un o'r perfformiadau hyn.

- Nodwch y dylai'r cynyrchiadau, y perfformiadau a'r presenoldeb a restrir yma eisoes fod wedi eu cynnwys yn y data a roesoch yn Rhan 1.

Rhan 3

Dan bob un o'r cynyrchiadau a nodwyd oedd yn defnyddio Uwchdeitlau, Disgrifiad Sain neu BSL, rhowch enwau'r cynyrchiadau.

- Nodwch y dylai'r cynyrchiadau, y perfformiadau a'r presenoldeb a restrir yma eisoes fod wedi eu cynnwys yn y data a roesoch yn Rhan A.

Rhan 4

O'r cynyrchiadau a nodwyd yn Rhannau 1 a 2, dywedwch wrthym faint o'r cynyrchiadau hynny oedd wedi eu targedu'n benodol at y grwpiau isod. Hefyd, rhowch enwau'r cynyrchiadau a lle y'u cyflwynwyd:

- Pobl Anabl
- Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Siaradwyr Cymraeg
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched Beichiog a Mamau Newydd
- Teuluoedd

Os oedd cynyrchiadau wedi eu targedu at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pobl grŵp sy'n gymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Rhan 5

Wnaeth y cynhyrchiad dargedu neu ymgysylltu â'r canlynol:

- Celfyddydau a lechyd
- Pobl Ddigartref
- Teuluoedd ar incwm isel
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Iloches
- Cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg (NEETs yn saesneg)

Byddwn yn cysylltu gyda chi efo cwpl o cwestiynau os rydych wedi gweithio efo unrhyw un o'r grwpiau yma.

Rhan 6

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC, cafwyd galwad am gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r data rhifol. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn pob adran, rydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd yr adran hon i chi allu dweud mwy wrthym am gwmpas ac effaith eich gwaith. Gallwn gysylltu â chi am y wybodaeth a ddarperir yma i'w gynnwys mewn adroddiadau eraill gan Gyngor y Celfyddydau y byddwn yn gyhoeddi.

Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Adran Wyth: Gwasanaethau i'r Sector a'r Gymdeithas Ehangach

Rhennir yr adran hon yn ddau. Yn adran A mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- unrhyw sesiynau hyfforddi a datblygu a gynhaliwyd gan eich mudiad i ymarferwyr a mudiadau'r celfyddydau dros y chwe mis diwethaf
- nifer y tenantiaid a phreswyliaethau artistiaid
- nifer y gwirfoddolwyr a gofrestrwyd gyda'ch mudiad

Yn adran B, mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- sesiynau holi ac ateb a sgysiau a gynhaliodd eich mudiad
- unrhyw waith a gyflwynwyd gan eich mudiad sydd yn arfer sy'n cysylltu yn gymdeithasol
- Perfformiad Amgylcheddol

Adran A

Rhan 1: Sesiynau hyfforddi/gweithdai

O fewn y chwe mis diwethaf, dywedwch wrthym a wnaeth eich mudiad hwyluso unrhyw sesiynau oedd wedi eu targedu'n benodol at artistiaid neu fudiadau celfyddydol eraill at ddibenion hyfforddi a datblygu. Nodwch ym mha categori iaith y cyflwynwyd y sesiwn. Hanner diwrnod neu lai yw un sesiwn. Gallai sesiynau a restrir yma gynnwys: Hyfforddiant DPP cyffredinol, hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddiant GDPR

Dylid cofnodi cyfanswm y nifer oedd yn bresennol mewn sesiynau dan iaith y sesiwn, waeth beth oedd iaith y cyfranogwyr/sawl oedd yn bresennol.

Mae ein dewisiadau iaith yn cynnwys: Saesneg, Cymraeg, Arall, Dwyieithog, Amlieithog a iaith heb fod yn Berthnasol.

Diffiniadau:

Dwyieithog – Cymraeg A Saesneg YN UNIG

Arall Os cyflwynwyd y cynhyrchiad mewn iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg

Amlieithog –os nad oedd y cynhyrchiad yn cynnwys Cymraeg A Saesneg yn unig ond yn cynnwys dwy neu fwy o ieithoedd, e.e.,Cymraeg, Saesneg a Groeg

Rhan 2: Digwyddiadau

Dywedwch wrthym os gwnaeth eich mudiad hwyluso unrhyw ddigwyddiadau oedd wedi eu targedu'n benodol at artistiaid neu fudiadau celfyddydol eraill at ddibenion hyfforddi a datblygu yn ystod y chwe mis diwethaf. Rhowch nifer y digwyddiadau dan y categori iaith y cyflwynwyd y digwyddiad ynddo. Gallai digwyddiadau a restrir yma gynnwys: cynadleddau, symposia marchnata, digwyddiadau rhwydweithio.

Noder: Rhowch enwau'r sesiynau a'r digwyddiadau a nodwyd yn y blwch sylwadau.

Rhan 3: Grwpiau wedi'u targedu

Yn y cwestiwn hwn, mae gennym ddiddordeb gwybod a oedd unrhyw rai o'r sesiynau neu ddigwyddiadau ar gyfer artistiaid/mudiadau celfyddydol a nodwyd yng nghwestiynau 1 a 2 wedi eu targedu at unrhyw rai o'r grwpiau isod:

- Pobl Anabl
- Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Plant a Phobl Ifanc (25 ac iau)
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol
- Siaradwyr Cymraeg
- Trawsrywiol
- Pobl Hŷn (50+ oed)
- Pobl â chred grefyddol benodol neu ddibenion eraill cysylltiedig â chrefydd
- Merched beichiog a mamau newydd
- Teuluoedd

Os targedwyd yr arddangosfeydd at fwy nac un grŵp, yna cofnodwch y gweithgaredd hwn yn erbyn pob grŵp cymwys.

Bydd y data a gesglir yn cael ei roi at ei gilydd yn ein hadroddiadau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn gweithgaredd a dargedir yn benodol.

Rhan 4: Tenantiaid a Phreswyliaethau Artistiaid

Llenwch yr adran hon os oes gan eich mudiad denantiaid sy'n gweithio yn y diwydiannau artistig a diwylliannol. Gallai'r tenantiaid fod yn fudiadau proffesiynol neu artistiaid sy'n talu rhent neu ddim. Nodwch nifer y tenantiaid sydd gan eich mudiad, nifer y bobl a gyflogir yn y mudiad (os gwyddoch), a'r

nifer a gofnodwyd o oriau o gyngor neu gymorth yr ydych yn roi i'r tenantiaid hyn.

Os yw eich mudiad yn cyflwyno/hwyluso comisiynu preswyliaethau artistiaid, cofnodwch fanylion pob prosiect sydd yn rhedeg ar hyn o bryd, yr ydych yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, a phob un a gwblhawyd.

Gallwch hefyd gynnwys manylion am nifer y preswyliaethau newydd a gontractiwyd dros y chwe mis diwethaf a all fod wedi cychwyn yn ystod y cyfnod hwn neu beidio.

Rhan 5: Datblygu Proffesiynol Parhaus

Dywedwch wrthym, o nifer y sesiynau/gweithdai hyfforddi Datblygu Proffesiynol Parhaus a nodwyd yn Rhan 1, faint oedd wedi eu hwyluso/targedu at athrawon yn ystod y chwe mis a aeth heibio. Cofnodwch gyfanswm nifer y sesiynau/gweithdai hyfforddi ar gyfer pob iaith, ac yna ar gyfer pob ffurf ar gelfyddyd.

Hanner diwrnod neu lai yw sesiwn. Gellir cynnwys gwaith mentora un i un neu sesiynau lleoliad gwaith yma hefyd.

Cyfeiriwch at ein canllaw iaith ar frig y dudalen.

Rhan 6: Gwirfoddolwyr

Mae Rhan 6 yn gofyn am ddata ar wirfoddolwyr yn eich mudiad.

Dywedwch fwy wrthym am gydraddoldeb ac amrywiaeth gwirfoddolwyr a gofrestrwyd gyda'ch mudiad.

Adran B

Rhan 1: Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb

Dywedwch hefyd wrthym am nifer y sgyrsiau a gyflwynwyd gan eich mudiad yn eich lleoliad eich hun neu a drefnwyd gennych chi ond a gynhaliwyd yn rhywle arall. Rhwch y data dan y dewis iaith y cynhaliwyd y sgyrsiau ynddynt, gyda'r niferoedd oedd yn bresennol ym mhob un. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi sgyrsiau a phresenoldeb dan yr un categori iaith.

Yn olaf, a wnewch hefyd ddweud wrthym faint o sesiynau holi ac ateb a gynhaliodd eich mudiad yn ystod y 6 mis a aeth heibio, oedd naill ai yn ddigwyddiadau unigol neu a redwyd ochr yn ochr â digwyddiad arall.

Rhan 2: Arfer sy'n Cysylltu yn Gymdeithasol

Dywedwch wrthym a ydych wedi hwyluso unrhyw brosiectau arfer sy'n cysylltu yn gymdeithasol.

Canllawiau Arolwg PCC, diweddarwyd ddiwethaf: Mehefin 2019

Gall arfer sy'n cysylltu yn gymdeithasol, a elwir hefyd yn arfer cymdeithasol neu gelfyddyd sy'n cysylltu yn gymdeithasol, gynnwys unrhyw ffurf ar gelfyddyd sydd yn dwyn i mewn bobl a chymunedau mewn dadleuon, cydweithredu neu ymwneud cymdeithasol.

Rhan 3: Perfformiad Amgylcheddol

Hoffem wybod a oes gan eich mudiad System Fonitro Amgylcheddol (EMS yn saesneg) a/neu bolisi amgylcheddol ar hyn o bryd. Mae hyn er mwyn i ni fedru mapio tueddiadau, yn hytrach na graddio perfformiad amgylcheddol mudiadau unigol.

Rhan 4: Gwasanaethau Eraill

Os ydych yn cyflwyno unrhyw fath arall o wasanaeth i'r sector a'r gymdeithas ehangach nad ydych eisoes wedi ei grybwyll yn yr adran hon, yna ysgrifennwch yn y blwch a ddarperir ddisgrifiad byr o'r gwasanaeth yr ydych yn ei ddarparu.

Rhan 5: Cwmpas ac Effaith

Yn ystod ein hadolygiad o Arolwg PCC yn 2018, cafwyd galwad am gyfle i ddarparu naratif i fynd gyda'r ffigyrau yr ydym yn gofyn amdanynt. Mae hyn er mwyn i ni gael darlun llawnach o'r gweithgaredd. Yn ychwanegol at y blychau sylwadau a roddir ar derfyn pob adran, rydym wedi creu blwch sylwadau dewisol ar ddiwedd yr adran hon i chi allu dweud mwy wrthym am gwmpas ac effaith y gwasanaethau yr ydych wedi'u cyflwyno i'r sector a'r gymdeithas ehangach dros y 6 mis a aeth heibio. Ni fydd yr wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiadau Ystadegau Swyddogol, ond gall gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau eraill a gyhoeddwn.

Adran Naw: Cyflogaeth ac Aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr

Sylwch fod yr adran hon yn orfodol. Yma, rydym yn gofyn am wybodaeth am weithwyr ac Aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Rhoddir y data a gesglir yn adroddiadau ein grwpiau Cydraddoldeb a Monitro fel y gallwn edrych ar dueddiadau mewn patrymau gwaith a gwneud cymariaethau cenedlaethol.

Rhan 1

Dywedwch wrthym am y bobl mae eich mudiad yn gyflogi. Ni ddylid cyfrif unrhyw aelod o staff mewn mwy nac un maes. Ymdrinnir ag aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr yn rhan 3.

**Dylai staff sy'n gweithio cyfanswm o 35 awr yr wythnos neu fwy gael eu cyfrif fel rhai llawn-amser.

** Dylai staff sy'n gweithio llai na 35 awr yr wythnos gael eu cyfrif fel rhai rhan-amser. Mae gan weithwyr llawn a rhan amser yr hawl i'r canlynol:

- Tâl Salwch Statudol
- Tal Mamolaeth Statudol
- Tal Tadolaeth Statudol
- Tal Mabwysiadau Statudol
- Tâl Rhiant a Rennir

**Mae Contract Achlysurol (a adwaenir hefyd fel contract dim oriau) fel y'i diffinnir gan gov.uk: <https://www.gov.uk/contract-types-and-employer-responsibilities/zero-hour-contracts> yn golygu nad oes dim rheidrwydd i gyflogwyr gynnig gwaith, nac i weithwyr ei dderbyn.

**Mae lleoliadau gwaith i hyfforddeion (a all fod yn daledig neu beidio) yn cwrdd ag anghenion y mudiad, a bydd hyfforddeion fel arfer yn cael swydd ar derfyn yr hyfforddiant neu gyfweiliad gadael gydag adborth ffurfiol ar y diwedd. <https://www.gov.uk/employ-trainees>

**Gall prentisiaid fod yn unrhyw un dros 16 oed a byddant yn cyfuno gwaith gydag astudio i ddysgu sgiliau penodol i'r swydd a chael cymhwyster o TGAU neu'r hyn sy'n cyfateb, i lefel gradd. Gweler ACAS: <http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=3816>

**Interniaid yw graddedigion neu fyfyrwyr israddedig sy'n mynd trwy broses ddewis mewn rhaglen fwy ffurfiol a strwythuredig a gallant dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu beidio <https://www.gov.uk/employment-rights-for-interns>

Rhan 2

Dangoswch amrywiaeth gweithwyr cyflogedig ac esbonio sut y mae eich mudiad yn casglu'r ffigyrau hyn.

Rhan 3

Yn Rhan 3, mae gennym ddiddordeb yn nifer aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr (nid yw hyn yn cynnwys eich Uwch-Dîm Arwain/Rheoli).

Mae aelodau eich Corff Llywodraethol a Byrddau Ymddiriedolwyr yn bobl sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol dros eich mudiad; a byddant yn gyfrifol am sicrhau cyfeiriad, goruchwyllo ac atebolrwydd y mudiad.

Rhowch gyfanswm nifer aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr ac esbonio sut y mae eich mudiad yn casglu'r ffigyrau hyn.

Rhan 4

Dangoswch amrywiaeth aelodau eich Corff Llywodraethol/Bwrdd Ymddiriedolwyr ac esbonio sut y mae eich mudiad yn casglu'r ffigyrau hyn.

Beth a olygwn wrth amrywiaeth?

Nodweddion Gwarchodedig

Sonnir am gydraddoldeb yn aml o ran Nodweddion Gwarchodedig pobl, lle mae yn erbyn y gyfraith camwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd:

- Oedran
- Anabledd
- Trawsrywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Hil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Crefydd neu Gred
- Hil
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Gwarchodir unigolion dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** rhag y mathau hyn o gamwahaniaethu. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

Gwarchodir yr **iaith Gymraeg** dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993** a **Mesur yr Iaith Gymraeg 2011**